Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Addysgu hanes Cymru

Tachwedd 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru

Tachwedd 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AC**
Plaid Cymru



**Carwyn Jones AC**
Llafur Cymru



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Jayne Bryant AC**
Llafur Cymru



**Caroline Jones AC***
Plaid Brexit



**Rhiannon Passmore AC**
Llafur Cymru

* Yn ystod yr ymchwiliad, eisteddodd Caroline Jones fel aelod o UKIP a newidiodd ei Phlaid Wleidyddol ym mis Mai 2019.

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... **5**

**1. Y cefndir** ..... **6**

Arolwg barn cyhoeddus y Pwyllgor ..... 6

Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru ..... 7

**2. Y cwricwlwm presennol** ..... **9**

**3. Cwricwlwm i Gymru 2022** ..... **13**

Hanes yn y cwricwlwm newydd ..... 13

**4. Adlewyrchu ein holl hanes** ..... **19**

**5. Adnoddau dysgu a hyfforddiant** ..... **22**

5. 1. Adnoddau ..... 22

5. 2. Hyfforddiant athrawon ..... 23

**Atodiad A: Tystiolaeth Lafar** ..... **27**

**Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig** ..... **28**

**Atodiad C: Digwyddiad i Randdeiliaid** ..... **29**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Hoffai'r Pwyllgor gael tystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o ran addysgu cynnwys Cymreig. ....................Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes. Bydd y digwyddiadau a'r pynciau allweddol hyn yn galluogi pob disgybl i ddeall sut mae ei wlad wedi cael ei dylanwadu gan ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun hanesion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol. ................................Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Dylai Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys amrywiaeth fel elfen graidd. Mae perygl na fydd yr hyblygrwydd arfaethedig i ysgolion ac athrawon yn sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn gwybod stori ein cymunedau ethnig a chrefyddol amrywiol. ....................................................................................................Tudalen 21

**Argymhelliad 4.** Er mwyn sicrhau bod hanes yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol, dylai'r adolygiad thematig Estyn o drefniadau addysgu hanes, a argymhellir yn yr adroddiad hwn, asesu sut y caiff amrywiaeth ei addysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion. ......................................................................Tudalen 21

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ehangu gwaith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru a Race Council Cymru i holl fyfyrwyr ac athrawon Cymru. ..........................................................................................Tudalen 21

**Argymhelliad 6.** Mae'n hanfodol sicrhau y bydd y gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cael ei gefnogi'n briodol gyda deunyddiau addysgu sy'n adlewyrchu'r uchelgais i addysgu hanes Cymru o'r safbwyntiau lleol a chenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod adnoddau o'r fath ar gael yn eang. .......................................................................Tudalen 25

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn galluogi i bawb sy'n addysgu hanes wybod sut i gael mynediad at hanes Cymru a'i gyflwyno. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon BAME yng Nghymru a pha mor llwyddiannus y mae wedi bod. ....................................Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Dylid cynnwys hanesion amrywiaeth hiliau a chrefyddau Cymru mewn addysg gychwynnol i athrawon, a dylid eu hadlewyrchu mewn deunyddiau addysgu ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. ..........................................Tudalen 26

# 1. Y cefndir

**1.** Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi bod yn edrych ar sut mae hanes Cymru yn cael ei addysgu ar hyn o bryd a'r hyn y mae Cwricwlwm i Gymru 2022 Llywodraeth Cymru yn ei olygu o ran addysgu'r pwnc yn y dyfodol.

**2.** Anfonir yr adroddiad hwn at Lywodraeth Cymru i lywio ei hymgynghoriad ar y Cwricwlwm i Gymru 2022. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r argymhellion a bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc hwn fel rhan o'i waith craffu cyffredinol ar Weinidogion Cymru.

## Arolwg barn cyhoeddus y Pwyllgor

**3.** Cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu arolwg barn cyhoeddus yn ystod haf 2018, gan wahodd aelodau'r cyhoedd i ddewis o restr o bynciau posibl ar gyfer ymchwiliad. Cymerodd bron i 2,500 o bobl ran yn yr arolwg barn. Pleidleisiodd pedwar a deugain y cant dros "Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion".

**4.** Roedd rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg barn yn dadlau:

- nad yw'r cwricwlwm presennol yn caniatáu i blant Cymru ddeall eu lle yn y byd gan nad ydynt yn cael eu haddysgu am eu hanes, eu hiaith a'u harferion eu hunain; ac

- mae addysgu hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm yn hanfodol os yw plant ysgol ac oedolion ifanc am feithrin hunaniaeth Gymreig. Mae hyn yn elfen hanfodol o addysg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

**5.** Mae Pwyllgor Deisebau y Cynulliad Cenedlaethol wedi trafod deiseb ar y pwnc hwn ac wedi clywed tystiolaeth wrthgyferbyniol am addysgu hanes yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud bod hanes Cymru wedi'i gynnwys yn helaeth yn y cwricwlwm sy'n cael ei addysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion, a bod yr adolygiadau diweddar i gymwysterau TGAU a Safon Uwch a'r cwricwlwm newydd sydd i ddod i gyd yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu am hanes eu gwlad.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru

**6.** Sefydlodd y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol, a gadeiriwyd gan Dr Elin Jones i ymchwilio i'r ffordd y caiff hanes, astudio Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig eu haddysgu. Gwnaeth adroddiad y grŵp, y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru (Medi 2013) 12 argymhelliad yn ymwneud â'r dimensiwn Cymreig wrth ddatblygu cwricwlwm yn y dyfodol ac mewn perthynas â'r cwricwlwm hanes yn benodol.

**7.** Cytunodd y Grŵp fod y rhaglen astudio hanes yn rhoi blaenoriaeth benodol i hanes Cymru ym mhob cyfnod a astudiwyd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (ac eithrio'r ymchwiliad i hanes diweddar ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3). Fodd bynnag, awgrymodd y dystiolaeth a oedd ar gael i'r panel nad oedd pob ysgol yn bodloni'r gofynion, a hynny am amryw o resymau.

**8.** Credai'r Grŵp, er bod elfen orfodol o hanes Cymru wedi bod yn rhan o'r lefel O, bod hyn wedi'i ddileu o'r TGAU, ac efallai fod hyn wedi diraddio statws hanes Cymru o safbwynt athrawon.

**9.** Nid oedd y grŵp yn dadlau o blaid pennu "rhaglen astudio ar gyfer hanes Cymru" yn lle'r rhaglen astudio gyfredol ar gyfer hanes, ond roedd eisiau gweld mwy o gydbwysedd yn yr hyn a ddysgir ac a addysgir mewn ysgolion, fel bod yr elfen Gymreig ganolog yn fwy gweladwy.

**10.** Roedd argymhellion y grŵp yn cynnwys y canlynol:

- mewn unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol, dylai'r rhaglen astudio gael ei hail-strwythuro, er mwyn rhoi arweiniad pendant ar y berthynas rhwng hanes lleol, hanes Cymru, hanes Prydain, hanes Ewrop a hanes y byd ehangach. Dylid ceisio darparu sylfeini cadarn i feithrin dealltwriaeth hanesyddol dysgwyr wrth ymestyn eu gorwelion; a
- dylai cyfran o hanes Cymru fod yn rhan integredig a gorfodol o bob manyleb hanes TGAU a gynigir yng Nghymru. (Mae Llywodraeth Cymru a CBAC wedi gwneud hyn ers hynny.)

**11.** Er i'r cyn-Weinidog, Huw Lewis groesawu'r argymhellion, dywedodd y byddent yn cael eu hystyried yn yr adolygiad ehangach o'r cwricwlwm a'r asesiadau, a oedd yn cael ei gynnal gan yr Athro Graham Donaldson ar y pryd.

**12.** Mae Dr Elin Jones wedi disgrifio ei rhwystredigaeth barhaus o ran y diffyg cynnydd yn y maes hwn ers cyhoeddi adroddiad y Grŵp yn 2013. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau ym mis Mai 2018, dywedodd y canlynol:

> "Mae ymchwil a wnaethpwyd 20 mlynedd yn ôl gan Dr Siân Rhiannon Williams hefyd yn awgrymu mai dim ond traean o ysgolion sy'n dysgu hanes Cymru yn iawn, ond nid oes tystiolaeth gyda ni. Os nad yw hyn yn digwydd, pam nad yw'n digwydd? Beth yw'r anawsterau? Rwy'n meddwl bod y pwyslais ar ganlyniadau a'r elfen gystadleuol rhwng ysgolion yn cael effaith ar hynny."

# 2. Y cwricwlwm presennol

**13.** Edrychodd y Pwyllgor ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm presennol er mwyn deall yn well yr hyn sy'n orfodol ar hyn o bryd mewn ysgolion. Yn y cwricwlwm presennol, mae'r Rhaglen Astudio Hanes (2008) yn nodi, yng Nghyfnod Allweddol 2:

> "Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol trwy ddysgu am ystod o gyd-destunau hanesyddol. Dylai'r rhain fod yn seiliedig yn bennaf ar **yr ardal leol o fewn cyd-destun ehangach Cymru**, ond gan gynnwys enghreifftiau o Brydain a gwledydd eraill."

**14.** Mae hefyd yn nodi o ran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3:

> "Byddant yn dysgu trwy ymholi am brif nodweddion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol detholiad o gyfnodau yn hanes Cymru a hanes Prydain yn ystod y mileniwm diwethaf. Byddant yn gosod y datblygiadau hyn yn eu cyd-destun drwy **ymholi i hanes eu hardal eu hunain**, i brofiadau hanesyddol gwledydd Prydain, ac i agweddau ar hanes Ewrop a hanes y byd."

**15.** Nod manylebau newydd TGAU Hanes, o fis Medi 2017 a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol hanes, o fis Medi 2015, oedd canolbwyntio mwy ar hanes Cymru a safbwyntiau Cymreig ar hanes. Er enghraifft, mae'r olaf yn nodi:

> "Mae pob un o'r opsiynau yn Unedau 1-4 sy'n rhoi sylw i hanes Cymru a Lloegr yn cynnwys ffocws nodedig ar faterion allweddol a chynnwys hanes Cymru. Dylai athrawon fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfuno materion allweddol a chynnwys hanes Cymru yn rhan o'r rhaglen ddysgu gyffredinol, lle bo'n briodol."

**16.** Clywodd y Pwyllgor, er gwaethaf y gofynion presennol, nad yw disgyblion yn cael eu haddysgu am hanes Cymru fel y bwriadwyd. Cafwyd sylw nodweddiadol gan Dr Steven Thompson o Brifysgol Aberystwyth. Ysgrifennodd:

> "Most of this Welsh history, where it has been studied, has been offered in the context of a 'British' history module in which tokenistic Welsh history elements are added, for example the Rebeccca riots, the Newport rising, the interwar depression, and so on.

> The students who come to study in the department tell us they have studied topis such as the Nazis, the Holocaust, the civil rights movement, the Russian Revolution, and the Tudors. Quite often we hear the comment that they have studied the Nazis every year over a number of years. Some of the weaker students wish to study those topics again when they arrive at university while the stronger ones are desperate to study something, anything else.
>
> I have done a lot of work with schools in recent years as part of our recruitment strategies. I have been asked to lead sessions on the civil rights movement in America, the women's suffrage movement and other topics. I have never been asked to do anything on Welsh history, and neither have any of my colleagues. Schools do not seem to be teaching Welsh history and so we are not asked to provide sessions on it.
>
> My understanding is that the schools curriculum allows teachers to teach Welsh history but, from our perspective in the Department, they do not seem to be doing so. It seems to us that children across Wales, in English- and Welsh-medium schools, are growing up without any real sense of the history of their own communities and are far more conversant with the history of other countries."

**17.** Clywodd y Pwyllgor bryderon fod yna berygl o symud i system newydd sy'n llawer llai cyfarwyddol o ran yr hyn y mae'n rhaid ei ddysgu heb wybod am addysgu heddiw. Dywedodd Dr Elin Jones wrth y Pwyllgor "nid ydym yn gwybod yn iawn beth yw'r sail y byddwn yn adeiladu arni ar gyfer y cwricwlwm newydd hwn. Nid ydym yn gwybod beth y mae athrawon yn ei feddwl o'r cwricwlwm presennol".

**18.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at CBAC i ofyn "a yw'n ymwybodol o unrhyw faterion o ran ysgolion yn cydymffurfio â'r gofyniad yn y fanyleb TGAU i addysgu cynnwys sy'n benodol i Gymru"? Ymatebodd y Prif Weithredwr, Roderic Gillespie:

> "The WJEC is not aware of any issues regarding compliance with the requirement in the GCSE specification to teach Wales-specific content. Were schools not to do this they would risk candidates not being able to answer specific questions and/or accessing the higher Bands in certain questions."

**19.** Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at y Gweinidog Addysg i ofyn pa wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am yr amser a dreulir yn addysgu hanes Cymru yn

benodol yng Nghyfnod Allweddol 2, 3 a 4 ac ar lefel TGAU a Safon Uwch. Ymatebodd y Gweinidog:

> "Nid oes gennym wybodaeth am y gyfran benodol o amser a gaiff ei threulio yn addysgu hanes Cymru yn ystod yr amrywiol gyfnodau allweddol…
>
> Mae canllawiau TGAU Hanes CBAC i ymarferwyr yn nodi y dylid cynnwys cyfran sylweddol o hanes Cymru yn y cynnwys gofynnol ar gyfer y fanyleb yn Unedau 1 a 3 a rhoddir cyfarwyddyd i athrawon gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol o fewn eu gwaith addysgu sy'n dangos persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru…
>
> Rhaid i'r dysgwyr ddewis un Uned ar hanes Cymru a Lloegr i'w hastudio ar lefel UG a Safon Uwch."

**20.** Mewn ymateb i gais y Pwyllgor i'r Gweinidog Addysg y dylai ystyried gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig ar addysgu yn y maes pwnc hwn, dywedodd mewn ymateb:

> "Mae'n wir bod lle am adolygiad ychwanegol ar bwnc dewisol i'w gynnal yn 2019-20. Nodaf sylwadau'r Prif Arolygydd mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn trafod y mater gyda'r Prif Arolygydd ac yn cysylltu â chi â'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law."

**21.** Mewn tystiolaeth i Bwyllgorau eraill, mae'r Gweinidog Addysg wedi herio'r canfyddiad nad yw hanes Cymru a safbwyntiau Cymreig ar hanes yn cael digon o sylw:

> "The programmes of study in our current curriculum are quite clear in both key stage 2 and key stage 3 about what we would expect them to be teaching our children, and I believe the changes to the GCSE and A-level courses also place greater emphasis on Welsh history."[1]
>
> "The impression that is given sometimes is that nothing is taught about Welsh history in our schools. And that's not true."[2]

[1] Y Pwyllgor Deisebau, 17 Gorffennaf 2018

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Mehefin 2018

## Ein barn

Mae'r Pwyllgor wedi clywed y rhwystredigaeth gan athrawon, cymdeithasau hanes, disgyblion ac academyddion nad yw plant yn gwybod stori eu cymuned na'u gwlad. Yn aml, dywedodd plant eu bod wedi dysgu mwy am hanes Cymru mewn gwersi Cymraeg yn hytrach na hanes.

Clywsom fod dysgu am wragedd Harri VIII, twf y Natsïaid, Staliniaeth, y ddau ryfel byd, y fasnach mewn caethweision a diwygiadau Seneddol yn yr Ugeinfed ganrif yn parhau i fod y pynciau a addysgir fwyaf am nifer o resymau. Er enghraifft, mae mwy o adnoddau ar gael; mae'r rhai sydd am barhau i astudio hanes mewn addysg uwch yn ystyried ei fod yn angenrheidiol ac efallai na fydd athrawon o'r tu allan i Gymru yn hyderus wrth addysgu hanes Cymru.

Rhoddwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan CBAC o ran cynnwys gofynnol cyrsiau TGAU a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod tuedd o hyd i addysgu hanes Cymru drwy "straeon Cymru" yn hytrach na chymhwyso'r un trylwyredd academaidd a chwestiynu tystiolaeth a ddefnyddir mewn mannau eraill.

Mae'n amlwg bod angen i ni gael tystiolaeth gyfredol o ran cynnwys a safon yr hanes a addysgir yn ein hysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ffordd y caiff hanes Cymru ei addysgu mewn ysgolion, gan adrodd ar hyn o fewn blwyddyn. Dim ond ar ôl cael tystiolaeth gadarn o ran natur a maint yr addysgu presennol y gellir gwneud asesiadau i lywio'r gwaith o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Hoffai'r Pwyllgor gael tystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o ran addysgu cynnwys Cymreig.

# 3. Cwricwlwm i Gymru 2022

**22.** Yn sgil adolygiad yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus (2015), mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff hyn ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2022.

**23.** Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar 30 Ebrill 2019. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am adborth gan y cyhoedd amdano hyd 19 Gorffennaf 2019.

## Hanes yn y cwricwlwm newydd

**24.** Caiff hanes ei addysgu o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. Yn ogystal â hanes, bydd y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol.

**25.** Nid yw'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau drafft yn rhoi manylion penodol ynghylch pa ddigwyddiadau mewn hanes y dylid neu sy'n rhaid eu haddysgu. Mae hyn yn bennaf oherwydd bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei ysgogi gan bwrpas yn hytrach na'i ysgogi gan gynnwys. Ar hyn o bryd, er bod manylebau o ran yr hyn y dylid ei addysgu yn y rhaglen astudio Hanes 2008, mae'n anochel bod yr hyn a addysgir mewn ysgolion yn cael ei ddylanwadu hefyd gan fanylebau hanes TGAU a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn ogystal â'r rhaglen astudio Hanes.

**26.** Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau drafft yn nodi ei fod yn cefnogi dysgwyr i "ddatblygu dealltwriaeth o Gymru a datblygu eu hymdeimlad eu hunain o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry". Mae hefyd yn nodi y "dylai ysgolion ac athrawon... sicrhau eu bod yn dethol cynnwys [cwricwlaidd] sy'n caniatáu i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth drylwyr o'u hardal leol, o Gymru ac o'r byd ehangach".

**27.** Yn y disgrifiad o'r hyn y dylai dysgwyr allu ei wneud ar wahanol oedrannau o fewn y cwricwlwm newydd, mae sawl cyfeiriad at "[g]anolbwyntio ar fy ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol".

**28.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau, cyn cyhoeddi'r cwricwlwm drafft, dywedodd Dr Elin Jones:

> "Nid yw Donaldson yn gosod sylfaen o gwbl i ddysgu hanes Cymru fel y cyfryw. Mae e'n gosod sylfaen i ddysgu'r dyniaethau. Ond rwyf i wedi dysgu'r dyniaethau fy hunan rhyw 40 mlynedd yn ôl ac nid oeddwn i'n ffeindio fy mod i'n gallu llwyddo i gyfleu y pynciau yna'n effeithiol, er mae athrawon cynradd yn gwneud hynny yn wych yn aml iawn."

**29.** Pan ofynnwyd iddi a oedd yn hyderus y byddai'r cwricwlwm newydd yn caniatáu i hanes gael ei addysgu yn y ffordd y byddai'n dymuno, dywedodd Dr Jones y canlynol:

> "Nid oes dim hyder gyda fi yn hynny o gwbl—dim o gwbl. Rwyf i wedi gweld peth o'r gwaith sydd yn cael ei wneud, ac mae'r athrawon sydd yn gweithio ar y cwricwlwm ar hyn o bryd, a'r gweision sifil sydd gyda nhw—maen nhw'n gwneud eu gorau. Ond heb arweiniad clir a phendant, heb enghreifftiau arfer da, heb dystiolaeth, maen nhw yn y tywyllwch, ac nid wyf i'n gwybod a fyddan nhw damaid callach pan fyddan nhw'n cwpla hwn o ran sut mae dysgu hanes."

**30.** Mewn ymateb i Gwestiwn Llafar y Cynulliad ar 5 Mehefin 2019, ynghylch lle hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd drafft, dywedodd y Gweinidog Addysg:

> "Credaf fod egwyddor *cynefin* yn un sydd wedi'i hymgorffori yn yr holl feysydd dysgu a phrofiad drafft, ac nid yw'n cyfyngu ei hun i'r cysyniad o addysgu plant am hanes Cymru. Rwyf am i stori Cymru—ei hanes, ei hiaith, ei diwylliant, ei daearyddiaeth, ei chyfraniad i'r byd—fod yn edefyn aur sy'n rhedeg drwy bob agwedd ar y cwricwlwm ac ni chredaf y dylem gyfyngu ein hunain i faes dysgu a phrofiad y dyniaethau neu un pwnc penodol yn unig."

**31.** Dywedodd Cymdeithas Owain Glyndŵr mewn tystiolaeth ysgrifenedig y gallai athrawon gael eu cyfyngu am nad yw'r cwricwlwm newydd yn darparu manylion penodol ynghylch yr hyn y dylid ei addysgu a bydd ysgolion yn astudio pynciau gwahanol mewn gwahanol rannau o'r wlad o ganlyniad i'w lleoliad.

> "Pupils living in the valleys of South Wales may well end up with an in-depth knowledge of the coal industry, but will probably have very little knowledge of the slate industry in Gwynedd."

**32.** Mae'n awgrymu y gall athrawon osgoi pynciau neu gyfnodau hanesyddol os dymunant, ac mae'n awyddus i gael rhywfaint o "orfodaeth gyffredinol" er mwyn sicrhau bod pynciau o bob un o'r prif gyfnodau yn cael eu trafod. Mae'n nodi:

> "The new curriculum should have a list of 'must-haves', i.e. topics that all the pupils in the country need to be taught so that they have a rounded knowledge of the events that have formed modern-day Cymru."

**33.** Yn yr un modd, nododd Dyfodol i'r Iaith yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "Os gall pob ysgol unigol benderfynu ar gynnwys yr hyn sydd i'w ddysgu, go brin bydd arlliw cenedlaethol arno. Dylai disgyblion adael ysgolion Cymru gyda chorff cyffredin o wybodaeth am y wlad ble cawsant eu haddysgu, pa mor fras bynnag fo hynny oherwydd cyfyngiadau amser. Pen draw anffodus posibl yr athroniaeth bresennol yw mai ond plant Hen Dŷ Gwyn ar Daf neu Sir Gaerfyrddin fydd yn dysgu am ddeddfau rhyfeddol Hywel Dda a dim ond disgyblion Casnewydd, Blaenau Gwent a Llanidloes am y Siartwyr."

**34.** Dywed fod modd sicrhau cydbwysedd rhwng rhagnodi'r digwyddiadau pwysicaf y dylai pob disgybl wybod amdanynt a rhyddid proffesiynol yr athrawon.

**35.** Mae Dyfodol i'r Iaith yn nodi bod y datganiadau "Dyma sy'n Bwysig" yn rhoi canllawiau cyffredinol defnyddiol, ond bod modd eu dehongli mewn mwy nag un ffordd. Dywed:

> "Bydd yr her yn arbennig o astrus yn y dyniaethau, gydag astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol yn elfennau ychwanegol i'w hystyried. Mae datblygiadau economaidd a natur y gymdeithas mewn unrhyw gyfnod, yn rhan annatod o astudio hanes. Gall cynnwys yr elfennau ychwanegol yn statudol gael effaith ar yr amser a ganiateir i ddysgu hanes ym maes y dyniaethau."

**36.** Dywed nad yw hanes Cymru wedi cael sylw digonol yn y gorffennol a bod yn rhaid i'r cwricwlwm arfaethedig "unioni'r sefyllfa hon".

**37.** Cytunodd cynrychiolwyr yr undebau athrawon, er ei fod efallai'n mynd yn groes i ysbryd y cwricwlwm newydd, fod "angen rhoi canllawiau" o ran cynnwys addysgu hanes Cymru. Roeddent yn galw am ddefnyddio enghreifftiau o Gymru wrth addysgu am ddigwyddiadau rhyngwladol. Dywedodd Mark Cleverly o NASUWT:

> "There has to be an element of prescription. But we also need to be very mindful that, as important as Welsh history is, we mustn't narrow the teaching of history to solely Welsh examples as well, because we must

> also link Welsh history to the national context and to the international context."

**38.** Gofynnwyd i Dr Elin Jones a oes rhai digwyddiadau sydd mor bwysig y mae'n rhaid eu haddysgu. Dywedodd wrth ymateb yn hytrach na nodi "trobwyntiau penodol" ei fod yn well "dweud bod cyfnodau allweddol amlwg yn hanes Cymru lle y cafwyd datblygiadau a oedd yn ganolog o ran ffurfio hunaniaeth unigol yng Nghymru".

**39.** Cytunodd y rhai a siaradodd â'r Pwyllgor y byddai'n heriol llunio rhestr o ddigwyddiadau y dylid eu hystyried yn "ganolbwynt" gan gadw ar yr un pryd at hyblygrwydd arfaethedig y cwricwlwm newydd. Roedd Wyn Thomas o Dyfodol i'r Iaith yn barod i awgrymu rhai pynciau y dylid eu haddysgu i bob disgybl. Dywedodd:

> "Rhaid i fi ddweud fy mod i'n amheus, neu'n ofnus, o'r syniad yma o beidio rhagnodi—non-prescriptive. Rwy'n credu bod yn rhaid rhagnodi rhai pethau yn ein hanes ni sy'n rhy bwysig i blant beidio â gadael astudio hanes hebddyn nhw. A byddwn i'n cyfeirio at rywbeth fel deddfau Hywel Dda ac ysgolion Griffith Jones, er enghraifft."

**40.** Clywodd y Pwyllgor hefyd am bryderon gan undebau athrawon o ran y ffordd y mae'r cwricwlwm newydd wedi'i rannu yn Feysydd Dysgu a Phrofiad a'r posibilrwydd o wanhau hanes fel disgyblaeth academaidd. Dywedodd Mark Cleverly o NASUWT fod athrawon wedi mynegi pryderon:

> "As they are moving into a humanities-based curriculum, whereby they're trying to split curriculum time and availability of teachers and other resources in order to meet the needs of how they perceive the curriculum to be. Now, that worries me, and it worries NASUWT, because, obviously, it's going to have a long-term impact on the status of history and history teaching, particularly when you get into teaching post 14 at GCSE and advanced level."

**41.** Dywedodd Ioan Rhys Jones, UCAC, ei bod yn "allweddol bwysig" bod gennym ni arbenigwyr mewn hanes ym mhob ysgol. Dywedodd:

> "[M]ae yna un coleg hyfforddi athrawon ar hyn o bryd yn golygu cael gwared â phob elfen o hanes a daearyddiaeth a chael un arbenigwr astudiaethau crefyddol, er mwyn darparu addysg gychwynnol athrawon i blant 3 i 18. Felly, buasai hynny'n drychinebus."

**42.** Pwysleisiodd Mark Cleverly hefyd yr angen i gael athrawon hanes arbenigol. Dywedodd:

> "We also need to ensure that specialist teaching will be retained and to dispel the myth that we're all teachers of history, and that all humanities teachers can teach history equally well."

### Ein barn

Mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon am natur a chynnwys y cynigion ar gyfer addysgu hanes fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru 2022. Gall symud i system o addysgu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hytrach na phynciau unigol wanhau hanes fel disgyblaeth academaidd. Pwysleisiodd undebau athrawon fod angen parhau i gyflogi athrawon hanes yn hytrach nag athrawon "dyniaethau". Mae perygl y bydd manylder academaidd y pwnc yn cael ei golli. Soniodd academyddion hefyd am yr angen i gadw hanes fel pwnc ar wahân er mwyn meithrin brwdfrydedd dros y ddisgyblaeth yn gynnar mewn ysgolion.

Cydnabuwyd y gallai'r cwricwlwm newydd gynnig cyfleoedd i wella'r ffordd y caiff hanes Cymru ei addysgu, ond bod hyn yn amodol ar yr angen am "rai gwarantau" yn y dyfodol. Mae'r cynigion i symud o "gynnwys i gysyniad" yn y cwricwlwm newydd wedi creu tensiwn rhwng yr awydd i roi hyblygrwydd i ysgolion ac athrawon a'r angen i fod yn gyfarwyddol o ran yr hyn a addysgir.

Roedd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cytuno bod angen pynciau craidd y dylid eu haddysgu i'r holl blant. Dywedodd y rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn y dylai disgyblion feddu ar wybodaeth gyffredinol am ddigwyddiadau allweddol yn ein stori genedlaethol. Dylid gosod y rhain mewn canllawiau wedi'u hategu gan ddigon o adnoddau a hyfforddiant i sicrhau bod athrawon yn teimlo'n hyderus wrth gyflwyno'r pynciau hyn yn eu cyd-destunau cenedlaethol, Prydeinig a rhyngwladol.

Gellid dadlau bod y cynigion ar gyfer hyblygrwydd yn y cwricwlwm newydd, os cânt eu gweithredu'n effeithiol, yn caniatáu mwy o gyfle i addysgu hanes Cymru na'r gofynion presennol yn y manylebau TGAU a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol. Fodd bynnag, os yw'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddisgrifio fel "gweledigaeth i Gymru", yna mae angen i bob disgybl ddysgu set gyffredin o bynciau a digwyddiadau sydd wedi llunio'r genedl y cawsant ei magu ynddi.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes. Bydd

y digwyddiadau a'r pynciau allweddol hyn yn galluogi pob disgybl i ddeall sut mae ei wlad wedi cael ei dylanwadu gan ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun hanesion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol.

# 4. Adlewyrchu ein holl hanes

**43.** Clywodd y Pwyllgor gan Gaynor Legall, o brosiect y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant, fod angen newid sylfaenol gan Lywodraeth Cymru, o ran y ffordd y mae'n edrych ar y cwricwlwm, y ffordd y mae'n ceisio datblygu ei dinasyddion o Gymru, a chydnabod nad yw pob dinesydd o Gymru â chroen gwyn, a bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi gwneud cyfraniad hanesyddol i Gymru.

**44.** Dadleuodd Uzo Iwobi o Race Council Cymru y dylid nodi hanes pobl dduon fel rhan o'r cwricwlwm newydd, ac na ddylai fod yn ddewisol. Dywedodd nad oedd gadael y penderfyniad ynghylch a ddylid dysgu hanes pobl dduon yn nwylo athrawon ac ysgolion yn ddigon da. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "I do think, to be sure that this is captured, it needs to be nailed down. We need to nail our colours to that mast and say—just like sexuality is included specifically and will be covered—that the stories and contributions to the history of Wales and Wales's development as a society will not be complete if we don't tell the stories of the black, Asian and minority-ethnic servicemen."

**45.** Dywedodd Ginger Wiegand, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru:

> "Not all people are going to agree on what Welsh history is and what it means… there needs to be a common agreement about what that is. It needs to be inclusive and it needs to include all of the histories."

**46.** Soniwyd eto am y tensiwn rhwng caniatáu hyblygrwydd a gorfodi pynciau craidd yn y cwricwlwm newydd, a chyfeiriwyd at yr angen i adlewyrchu diwylliannau Cymreig deinamig mewn cymdeithas aml-hil. Yn y cyd-destun hwn, teimlai'r rhai a siaradodd â'r Pwyllgor y dylai'r cwricwlwm gynnwys rhai meysydd gorfodol; fel arall efallai y bydd rhai athrawon yn teimlo nad yw hanes pobl dduon, er enghraifft, yn berthnasol i'w hardal leol.

**47.** Dywedodd Ginger Wiegand:

> "We need to represent the various communities and populations of Wales in our curriculum. And if we don't include that as something that's mandatory, then we will have missed an opportunity going forward."

**48.** Roedd pryder nad yw athrawon mewn sefyllfa i addysgu hanesion amrywiol. Er enghraifft, canfu grwpiau ffocws dysgwyr Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru

fod y disgyblion yn feirniadol o wybodaeth arwynebol athrawon am hanesion amrywiol.

**49.** Dywedodd Abu-Bakr Madden Al-Shabazz o Race Council Cymru fod "diffyg difrifol" o athrawon du mewn ysgolion yng Nghymru. Siaradodd Gaynor Legall am yr angen i sefydlu gweithlu addysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth a phwysigrwydd rôl Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu deunyddiau addysgu sy'n "gynrychiolaeth deg a llawn". Meddai:

> "I think the challenge around that is providing the teachers and schools in areas where there are very few black people with the teaching materials that they need to develop the curriculum, and to help them to make the links."

**50.** Dywedodd dysgwyr o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, wrth roi sylwadau ar y cwricwlwm newydd mewn gweithdy a hwyluswyd gan Dîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru, nad oes dim yn y cwricwlwm ynglŷn â bod yn ddu ac yn Gymreig. Tybir bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig "o rywle arall". Er mwyn gwneud yn iawn am hyn yn y cwricwlwm newydd, dywedodd Gaynor Legall ei bod yn bwysig i bobl o bob cwr o Gymru wybod am eu cymunedau ei gilydd. Dywedodd:

> "I want the kids who live in the docks to know about North Wales... as much as I want the people in Harlech to know about the docks and the coal industry... because it's about Wales. This is our country and we need to know the total of how we got here, and, more importantly, how we are going to move forward. And we can only move forward together."

**51.** Aeth ymlaen i alw am werthusiad i sicrhau bod ysgolion yn gwneud ymdrechion i gynrychioli amrywiaeth pobl Cymru.

### Ein barn

Clywodd y Pwyllgor bryderon am addysgu ein hanes amrywiol mewn ysgolion ar hyn o bryd ac o dan y cwricwlwm newydd. Clywodd y Pwyllgor fod cynnwys gwersi hanes ar hyn o bryd ac yn y gorffennol wedi canolbwyntio gormod ar Ewrop. Clywodd y Pwyllgor am yr angen i drafod cymhlethdodau perthnasoedd Cymru â gwledydd yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd.

Gall adlewyrchu stori ehangach Cymru leihau hiliaeth a hyrwyddo dealltwriaeth. Dywedodd pobl ifanc wrth Dîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru fod cwricwlwm sy'n canolbwyntio gormod ar safbwynt pobl wyn yn effeithio ar

ymdeimlad o hunanwerth disgyblion o leiafrifoedd ethnig a dealltwriaeth eu cyd-ddisgyblion o'u lle a'u gwerth yn y byd.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru a Race Council Cymru i ymchwilio i ganfyddiadau disgyblion o hil a hanes a'u hymdrechion i ehangu'r cwricwlwm. Dylid adeiladu ar y gwaith hwn a'i ymestyn. Ni fydd argymhellion yn yr adroddiad hwn ynghylch ehangu'r cwricwlwm yn dod i rym ar unwaith, felly mae'n bwysig bod mesurau'n cael eu cymryd i ehangu'r hyn y mae disgyblion yn ei astudio a'u canfyddiadau cyfredol.

Mae hanes Cymru yn amrywiol ac yn amlddiwylliannol, ac mae'n rhaid gwreiddio'r ffaith honno yng Nghwricwlwm i Gymru 2022.

**Argymhelliad 3.** Dylai Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys amrywiaeth fel elfen graidd. Mae perygl na fydd yr hyblygrwydd arfaethedig i ysgolion ac athrawon yn sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn gwybod stori ein cymunedau ethnig a chrefyddol amrywiol.

**Argymhelliad 4.** Er mwyn sicrhau bod hanes yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol, dylai'r adolygiad thematig Estyn o drefniadau addysgu hanes, a argymhellir yn yr adroddiad hwn, asesu sut y caiff amrywiaeth ei addysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ehangu gwaith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru a Race Council Cymru i holl fyfyrwyr ac athrawon Cymru.

# 5. Adnoddau dysgu a hyfforddiant

## 5. 1. Adnoddau

**52.** O ran y cwricwlwm presennol, clywodd y Pwyllgor fod diffyg argaeledd adnoddau addysgu sy'n benodol i Gymru. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae UCAC yn nodi bod athrawon Hanes yn dueddol o fod yn "awyddus i weld llwybr addysgol clir drwy amrywiaeth o adnoddau pwrpasol", ac efallai na fydd hyn yn bosibl o ystyried natur hyblyg y cwricwlwm newydd. Dywed mai dim ond rhywfaint o adnoddau priodol sy'n bodoli ar gyfer addysgu hanes Cymru, er y bu rhai gwelliannau. Yn eu barn hwy:

> "Bydd rhai yn gweld hyn yn gyfyngiad. O gofio y bydd nifer yn gweld rhoi Hanes Cymru yn ganolog i'r cwricwlwm yn newid chwyldroadol, efallai bydd angen ystyried cefnogi'r athrawon hyn drwy roi pwyslais ar adnoddau addas, Cymru-ganolog. Yn sicr, byddai hyn yn arbennig o wir wrth ystyried unrhyw newid i fanyleb cymwysterau."

**53.** Dywedodd Cymdeithas Owain Glyndŵr yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, os nad yw adnoddau ar gael yn rhwydd, efallai y bydd athrawon yn dychwelyd at eu hadnoddau "sydd wedi'u profi'n llwyddiannus", a byddai cyfleoedd i astudio pynciau am hanes canoloesol lleol, er enghraifft, yn cael eu colli. Dywedodd Gareth Jones fod yr ymagwedd symbolaidd at addysgu hanes Cymru mewn ysgolion yn deillio'n rhannol o ddiffyg adnoddau addas ac ni ddylai hyn barhau â'r cwricwlwm newydd:

> "Os oes adnoddau ar gael yn rhwydd o'r dimensiwn Cymreig, sy'n dangos y dimensiwn Cymreig, yna byddant yn cael eu defnyddio mwy, ond yn y gorffennol roedd llawer o'r adnoddau, byddwn i ddim yn dweud eu bod yn cymryd gogwydd Eingl-ganolog, ond roeddent o safbwynt Prydeinig yn hytrach na safbwynt Cymreig. Credaf mai'r hyn sydd ei angen mwyaf yw rhai deunyddiau rhagorol i ddangos beth sydd ei angen ar bobl i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn iawn."

**54.** Gofynnwyd i Dr Elin Jones roi sylwadau ar yr adnoddau penodol sydd ar gael i addysgu am Gymru, dywedodd fod gan gymdeithasau hanes lleol llawer i'w gynnig a bod yr adroddiad Cwricwlwm Cymreig wedi argymell penodi "hyrwyddwyr hanes" i annog arfer da. Dywedodd:

> "I commissioned resources to teach Welsh history and teach history in the schools of Wales for many years. They did not get used by very many

> schools. There are good resources out there. There are good resources on the web. They are not promoted commercially in the way resources that teach English history in schools in Wales have been promoted over the last five or six years, possibly longer. So, there needs to be investment, in producing appropriate resources for the new curriculum, but they would be locally appropriate resources."

## 5. 2. Hyfforddiant athrawon

**55.** Pwysleisiodd pawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yr angen i athrawon gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal ag adnoddau addas ar gyfer addysgu hanes Cymru ar hyn o bryd ac o dan y cwricwlwm newydd.

**56.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd UCAC bryderon am "allu a pharodrwydd" athrawon i addysgu hanes o safbwynt Cymru, gan nad yw pob athro yn Gymro. Meddai UCAC:

> "Rhaid ategu yn ogystal, nad yw pob athro ag arbenigedd yn Hanes Cymru, nad ydynt wedi astudio hanes eu gwlad wrth fynd i brifysgolion dros y ffin a'u bod yn anghyfforddus/amharod i addysgu agweddau helaeth ohono i ddisgyblion. Adlewyrchir hyn yn y 'tocyniaeth' sy'n amlwg ym manyleb CBAC. Mae angen llawer o hyfforddiant ar athrawon fel eu bod yn ddigon hyderus a mentrus, a digonedd o gyfleoedd i rannu arfer dda ac adnoddau."

**57.** Dywedodd hefyd fod y sector uwchradd yn wynebu her o ran y newidiadau i ymarfer addysgol ac y bydd uwch-sgilio yn angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu'r cwricwlwm. Yn eu barn hwy:

> "Mae'n anorfod y bydd cost i hyn ac mae'n allweddol bod digon o amser yn cael ei roi er mwyn sicrhau'r uwch-sgilio."

**58.** Dywed hefyd y bydd angen amser i ymchwilio, gan fod pryderon am ba mor dda yw gwybodaeth athrawon o hanes lleol, a phrin iawn y rhoddir sylw i hyn ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae UCAC hefyd yn nodi y gallai fod yn heriol i athro sydd am symud i ysgol neu ardal arall, gan y bydd gofyn iddo ailystyried ei gynlluniau gwaith yn llwyr. Galwodd Mark Cleverly am hyfforddiant arbenigol a rhybuddiodd na fydd pob athro dyniaethau yn gallu addysgu hanes lawn cystal ond bydd angen eu hyfforddi i wneud hyn.

**59.** Dywedodd Cymdeithas Owain Glyndŵr mewn tystiolaeth ysgrifenedig mai bwriad y cwricwlwm yw i ysgolion astudio pynciau lleol gan arwain wedyn at faterion rhanbarthol, cenedlaethol, Prydeinig, Ewropeaidd neu'r byd – "ond bydd

yn dibynnu'n fawr iawn ar allu eu hathrawon i ddatblygu cynlluniau gwaith addas".

**60.** Siaradodd Ginger Wiegand, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru, hefyd am y dysgwyr a oedd wedi cwestiynu cymhwysedd athrawon i addysgu hanes nad oedd o fewn canon hanes gwyn Prydeinig a gwyn Cymru. Soniodd am yr angen am hyfforddiant i athrawon, gan ddweud: "There is some evidence that there's very little attention given to ethnic or racial diversity, currently, in initial teacher training, So, there is an opportunity to use this new curriculum to ensure that that is addressed". Gan sôn am addysg gychwynnol i athrawon, dywedodd Uzo Iwobi:

> "I do think that we need to have a comprehensive input into presentations to teachers and the people in the teaching profession. I think the local education authorities have a real key role to play. I think the consortia in commissioning work have to explore that if you don't empower teachers to understand black history themselves, and to be committed to teaching it in a positive way, then, that is, ultimately, going to have a very adverse consequence."

**61.** Dywedodd wrth y Pwyllgor fod "athrawon wedi dweud wrthym nad ydyn nhw'n gwybod hanner yr hyn y dylen nhw ei wybod, a'u bod nhw'n cael eu ffrwyno'n llwyr oherwydd nad ydyn nhw'n teimlo'n gymwys i gyflwyno'r sesiynau hyn. Mae'n fater o adnoddau".

### Ein barn

Clywodd y Pwyllgor nad yw pob athro yn arbenigo mewn hanes Cymru a'i ardal leol. Gall yr her o symud at Faes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau brofi'n anoddach fyth os nad oes gan athrawon yr adnoddau i addysgu hanes eu hardal leol ac, yn ei dro, gysylltu hyn â'r stori Gymreig a rhyngwladol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anecdotaidd fod y diffyg adnoddau dysgu sy'n benodol i Gymru wedi arwain at addysgu tocenistaidd o hanes Cymru. Cydnabuwyd bod athrawon yn dueddol o ddefnyddio deunyddiau "oddi ar y silff" oherwydd diffyg amser ac anaml y mae'r rhain yn benodol i Gymru.

Bydd symud oddi wrth y dull Prydeinig presennol o addysgu hanes gan ychwanegu enghreifftiau o Gymru yn golygu buddsoddiad sylweddol wrth baratoi cynlluniau gwaith newydd, gan ddibynnu ar bartneriaethau gyda chymdeithasau hanesyddol lleol i'w cyflawni. Ychydig iawn o fanylion sydd am sut a phryd y caiff yr adnoddau addysgu eu datblygu i gefnogi'r cwricwlwm

newydd ond mae cytundeb cyffredinol y gall disgyblion ddisgwyl mwy o’r un peth heb yr adnoddau hyn.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am bryderon disgyblion o ran hyder a gallu athrawon i gyflwyno hanes mwy cynhwysol. Cydnabuwyd, os caiff ei addysgu’n ddilys, fod ganddo’r potensial i leihau hiliaeth ac anwybodaeth o ddiwylliannau eraill, ond er hynny, mae arwynebolrwydd o ran y ffordd y caiff hanes ei addysgu ar hyn o bryd sy’n cynnwys addysgu tocenistaidd o gaethwasiaeth a chyflwyniad o hanes pobl dduon mewn cyd-destun rhyngwladol, yn hytrach na chenedlaethol.

Mae angen i’r broses o sicrhau bod gan athrawon yr hyder a’r deunyddiau angenrheidiol i addysgu hanes Cymru ddechrau gyda’u haddysg gychwynnol. Nid oes “cwricwlwm” ar gyfer cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon, er bod yn rhaid i bob rhaglen o’r fath fodloni meini prawf achredu a osodir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae’r cwricwlwm newydd yn gofyn am newid mawr o ran ffordd y caiff pynciau’r Dyniaethau eu haddysgu. Mae angen cydnabod na fydd athrawon sydd wedi astudio mewn gwledydd eraill a’r rhai sy’n symud i ardaloedd newydd yn gyfarwydd ar unwaith â hanes eu hardal.

Bydd angen cefnogaeth sylweddol i sicrhau nad yw addysgu hanes Cymru yn cael ei danseilio gan ddiffyg adnoddau addas, hyfforddiant athrawon, a chyfleoedd i athrawon baratoi cynlluniau gwaith perthnasol. Bydd y Pwyllgor yn ceisio gwybodaeth fanwl am y dyraniadau cyllid ar gyfer gweithredu’r newidiadau hyn a newidiadau eraill i’r Cwricwlwm.

Er na wnaeth y mater o sut y caiff y cwricwlwm newydd ei archwilio godi fel rhan o’r ymchwiliad hwn, bydd y Pwyllgor yn cadw llygad graff ar ddatblygiadau yn y maes hwn. O gofio y caiff ysgolion eu hannog i hyrwyddo’r cysyniad “cynefin”, mae’n hanfodol bwysig bod gennym well dealltwriaeth o sut y caiff plant eu hasesu yn deg ynghylch eu hamryw feysydd astudio.

**Argymhelliad 6.** Mae’n hanfodol sicrhau y bydd y gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cael ei gefnogi’n briodol gyda deunyddiau addysgu sy’n adlewyrchu’r uchelgais i addysgu hanes Cymru o’r safbwyntiau lleol a chenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod adnoddau o’r fath ar gael yn eang.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn galluogi i bawb sy’n addysgu hanes wybod sut i gael mynediad at hanes Cymru a’i gyflwyno. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon BAME yng Nghymru a pha mor llwyddiannus y mae wedi bod.

**Argymhelliad 8.** Dylid cynnwys hanesion amrywiaeth hiliau a chrefyddau Cymru mewn addysg gychwynnol i athrawon, a dylid eu hadlewyrchu mewn deunyddiau addysgu ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau.

# Atodiad A: Tystiolaeth Lafar

Clywodd y Pwyllgor gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn yn ein cyfarfodydd. Mae trawsgrifiadau'r cyfarfodydd hyn ar gael ar ein gwefan:

http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 26 Mehefin 2019 | Dr Elin Jones<br>Mark Cleverley, NASUWT<br>Ioan Rhys Jones, UCAC<br>Gareth Jones, Ysgrifennydd, Cymdeithas Owain Glyndŵr<br>Eryl Owain, Ymgyrch Hanes Cymru<br>Wyn Thomas, Dyfodol i'r Iaith<br>Ginger Wiegand, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru (EYST Cymru)<br>Gaynor Legall, Cyfnewidfa Dreftadaeth a Diwylliannol |
| 18 Mehefin 2019 | Uzo Iwobi, Race Council Cymru<br>Abubakar Madden Al Shabbaz, Race Council Cymru<br>Vernesta Cyril OBE, Race Council Cymru<br>Carl Connikie, Race Council Cymru |

# Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig

Cafodd y Pwyllgor 89 o ymatebion ysgrifenedig gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn. Mae hwn ar gael ar ein gwefan:

http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=375

- Dr Steve Thompson, Prifysgol Aberystwyth
- Dr Elin Jones
- UCAC
- Cymdeithas Owain Glyndŵr
- Dyfodol i'r Iaith

# Atodiad C: Digwyddiad i Randdeiliaid

Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad rhanddeiliaid ar "Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion" yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, ar 21 Chwefror 2019 gyda'r canlynol yn bresennol:

http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=375

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Anna ap Robert | Coleg Ceredigion |
| Anna Davies | Coleg Gŵyr Abertawe |
| Catrin Verrall | Cymwysterau Cymru |
| Cliona O'Neill | CCAUC |
| Dai Thomas | Cwmni2 |
| Danny Kilbride | TRAC |
| Elaine Edwards | Dyfodol i'r Iaith |
| Eleri Evans | Amgueddfa Cymru |
| Elfed Wyn Jones | Deisebydd |
| Dr Elin Jones | |
| Elizabeth New | Prifysgol Aberystwyth |
| Eryl Owain | Ymgyrch Hanes Cymru |
| Gareth Wynford Jones | Cymdeithas Owain Glyndŵr |
| Yr Athro Huw Pryce | Prifysgol Bangor |
| Ioan Rhys Jones | UCAC |
| Yr Athro Martin Johnes | Prifysgol Abertawe |
| Michelle Gosney | Estyn |
| Neil Butler | NASUWT |
| Neris Morris | Coleg Gŵyr Abertawe |
| Nia Williams | Amgueddfa Cymru |
| Paul M Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Rob Humphreys | Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| Rocio Cifuentes | Cyfarwyddwr/Prif Swyddog Gweithredol Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru (EYST Cymru) |
| Sara Huws | Gwasanaethau Llyfrgell Prifysgol Caerdydd |

| | |
|---|---|
| **Dr Sarah Morse** | Cymdeithas Ddysgedig Cymru |
| **Siân Llewellyn** | CBAC |
| **Siân Rhiannon Williams** | Aelod o gymdeithasau hanes Llafur ac Archif Menywod Cymru |
| **Silyn Roberts** | Ceredigion County Council/ERW |
| **Dr Steve Thompson** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Toni Schiavone** | Ymgyrch Hanes Cymru |
| **Uzo Iwobi** | Race Council Cymru |
| **Wyn Thomas** | Dyfodol i'r Iaith |
| **Zoe Howells** | Is-bwyllgor y Gymdeithas Hanes |